Ministry of Justice

# Ymgynghoriad ar drefniadau cyllido remand ieuenctid

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 16 Awst 2023.

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 08 Tachwedd 2023.

# Ymgynghoriad ar drefniadau cyllido remand ieuenctid

Ymgynghoriad wedi'i gynhyrchu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hefyd ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/

# Gwybodaeth am yr ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **At:** | Awdurdodau Lleol<br><br>Timau Troseddau Ieuenctid<br><br>Rhanddeiliaid eraill, fel:<br><br>• pobl sy’n ymwneud â gwrandawiadau plant mewn llysoedd;<br><br>• pobl sy’n darparu gwasanaethau perthnasol i blant sy’n derbyn gofal; a<br><br>• pobl sydd â diddordeb mewn cyfiawnder ieuenctid. |
| **Hyd:** | O 16/08/23 hyd at 08/11/23 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) at:** | Youth Remand Policy Team<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ<br><br>E-bost: remandreview@justice.gov.uk<br><br>Os yw eich ymholiad yn ymwneud â’r wefan e-ymgynghori, cysylltwch â web@justice.gov.uk. |
| **Sut i ymateb:** | Cyflwynwch eich ymateb drwy’r ddolen Ymgynghori Cyfiawnder https://consult.justice.gov.uk/youth-justice-policy/youth-remand-funding-consultation<br><br>. |
| **Ffyrdd ychwanegol i chi roi eich barn:** | Cynhelir cyfarfodydd â rhanddeiliaid hefyd ym mis Medi a mis Hydref. I gael rhagor o wybodaeth defnyddiwch y manylion cyswllt ar gyfer “Ymholiadau” uchod. |
| **Papur ymateb:** | Disgwylir y bydd ymateb i’r ymarfer ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2023 yn: |

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth am yr ymgynghoriad hwn** | **3** |
| **Cynnwys** | **1** |
| **Crynodeb gweithredol** | **2** |
| **Cyflwyniad** | **4** |
| **Cefndir** | **5** |
| **Y Cyd-destun presennol** | **7** |
| **Trefniadau cyllido cyfredol** | **13** |
| **Asesu trefniadau cyllido** | **18** |
| Cwestiynau | 21 |
| **Opsiynau ar gyfer diwygio’r cyllid** | **23** |
| Cwestiynau | 27 |
| **Datganiad Cydraddoldeb** | **29** |
| **Holiadur** | **30** |
| **Gwybodaeth amdanoch chi** | **32** |
| **Manylion cyswllt/Sut i ymateb** | **33** |
| Cwynion neu sylwadau | 33 |
| Copïau ychwanegol | 33 |
| Cyhoeddi ymateb | 33 |
| Grwpiau cynrychioliadol | 33 |
| Cyfrinachedd | 33 |
| **Egwyddorion ymgynghori** | **35** |

**Atodiad A: Dadansoddiad o Remand Ieuenctid yn y Ddalfa**

# Crynodeb gweithredol

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ynghylch:

- trefniadau cyllido remand ieuenctid y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr; a
- opsiynau lefel uchel ar gyfer dyfodol y cyllid, h.y. sut y gall cyllid remand gefnogi nod y system cyfiawnder ieuenctid o atal troseddu ac aildroseddu gan blant.

Mae'r **cefndir** yn nodi'r rhesymeg dros adolygu'r trefniadau cyllido remand ieuenctid, yn dilyn yr ymrwymiad yn Adolygiad Remand y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2022), ac o gofio ei bod yn 10 mlynedd ers cyflwyno'r trefniadau presennol.

Mae'r **cyd-destun presennol** yn amlinellu sut mae'r garfan remand ieuenctid wedi newid ers sefydlu'r cyllid yn 2013, a'r camau rydym wedi'u cymryd yn dilyn yr Adolygiad Remand.

Mae'r **manylion am y cyllid remand presennol** yn nodi sut mae'r cyllid (a sefydlwyd yn 2013 yn dilyn Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012) yn cael ei gyfrifo a'i ddyrannu, a sut y codir tal ar awdurdodau lleol am remandio i'r ddalfa.

Mae'r **asesiad o'r cyllid remand** yn dod i'r casgliad nad yw'r trefniadau cyllido, fel y'u cynlluniwyd, wedi cymell buddsoddiad yn uniongyrchol mewn dewisiadau eraill yn lle anfon i'r ddalfa, a all fod yn effeithiol o ran adsefydlu ac atal troseddu.

Mae'r **opsiynau ar gyfer diwygio'r cyllid remand** yn amlinellu opsiynau diwygio lefel uchel a allai gefnogi ein nodau o alluogi dewisiadau cymunedol amgen i anfon i'r ddalfa a lleihau troseddu. Mae'r opsiynau yr ydym yn ceisio barn arnynt yn perthyn i bedair thema gyffredinol:

- Gwneud dim newid;
- Newid sut rydym yn dyrannu'r cyllid (gan gynnwys dull rhanbarthol);
- Dod â'r model cyllido i ben a sefydlu cronfa gyllid ganolog lle gall ardaloedd wneud cais am fentrau sy'n ymwneud â remand; neu
- Dod â'r cyllid i ben i awdurdodau lleol a gwneud defnydd gwahanol o gyllid i wella canlyniadau sy'n gysylltiedig â chyfiawnder ieuenctid.

Cyflwynir yr opsiynau hyn yn y cyd-destun polisi lle bydd awdurdodau lleol yn parhau i dalu costau remandio i'r ddalfa a chludiant i'r sefydliadau diogel, a bydd plant ar remand yn cadw statws derbyn gofal.

Ni fyddwn yn diwygio’r model cyllido yn y flwyddyn ariannol hon ac nid ydym yn bwriadu gwneud newidiadau cyn blwyddyn ariannol 2025/26. Byddwn yn treialu dull rhanbarthol o ymdrin â chyllid cyfun ar gyfer remand ieuenctid dros ddwy flynedd fel rhan o’r gwaith hwn.

# Cyflwyniad

Mae’r papur hwn yn nodi’r system bresennol o gyllido remand ieuenctid ar gyfer ymgynghori ac yn gofyn am farn ynghylch sut y gellir defnyddio cyllid i gyflawni nod y system cyfiawnder ieuenctid o atal plant a phobl ifanc rhag troseddu ac aildroseddu. Anelir yr ymgynghoriad at Awdurdodau Lleol, Timau Troseddau Ieuenctid (YOT) ac eraill sy’n gweithio gyda phlant yn y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr.

Mae cyllid awdurdodau lleol o fewn cymhwysedd datganoledig Llywodraeth Cymru, fel y mae gwasanaethau perthnasol eraill fel iechyd, addysg, llety, tai a gofal cymdeithasol plant. Mae fersiwn Cymraeg o’r papur ymgynghori hwn ar gael.

Anfonir copïau o'r papur ymgynghori at y canlynol:

- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant
- Cymdeithas Rheolwyr Tîm Troseddwyr Ifanc
- Cymdeithas Llywodraeth Leol
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Rheolwyr Timau Troseddwyr Ifanc Cymru
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr

Fodd bynnag, ni fwriedir i'r rhestr hon gynnwys pawb na chau neb allan, a byddwn yn croesawu ymatebion gan bawb sydd â diddordeb yn y pwnc a drafodir yn y papur hwn, neu sydd â safbwynt yn ei gylch.

Mae’r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â’r trefniadau cyllido remand a sut mae hyn yn berthnasol i ddewisiadau eraill yn lle remandio yn y ddalfa. Fodd bynnag, efallai y bydd ymatebwyr am roi sylwadau ar faterion cyfiawnder ieuenctid cysylltiedig lle bo hynny’n berthnasol – yn enwedig lleoliadau llety eraill i blant sydd mewn cysylltiad â’r system gyfiawnder. Er enghraifft, llety ar gyfer plentyn y mae’r heddlu yn gwrthod mechnïaeth iddo ar ôl ei gyhuddo, plentyn sy’n bwrw dedfryd gymunedol, neu blentyn sy’n ailsefydlu i’r gymuned ar ôl treulio amser yn y ddalfa, boed hynny ar remand neu’n bwrw dedfryd yn y ddalfa. Mae llawer o blant yn mynd drwy’r camau hyn ar yr un pryd â chael eu cefnogi gan YOT a’r awdurdod lleol.

# Cefndir

Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i system cyfiawnder ieuenctid sy'n sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr a chymunedau tra'n cydnabod anghenion unigryw plant. Mae gwneud penderfyniadau ynghylch remand yn broses gymhleth, ac mae'n ddarostyngedig i fframwaith deddfwriaethol llym. Rhaid i benderfyniadau daro cydbwysedd rhwng lles y plentyn ac amddiffyn y cyhoedd, a dyna pam y mae'n rhaid i'r dewis i remandio i'r ddalfa fod yn agored i'r llysoedd, ond dylai fod yn ddewis olaf bob amser.

Gellir remandio plant yn y gymuned i ofal awdurdod lleol dynodedig, h.y. remandio i lety awdurdod lleol (RLAA), neu eu remandio i'r ddalfa mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (YOI), Canolfan Hyfforddi Diogel (STC), neu Gartrefi Diogel i Blant (SCHs). O 2024 ymlaen, gellir remandio plant i'r Ysgol Ddiogel gyntaf hefyd. Yn y pen draw, mae penderfyniadau lleoli ar gyfer remandio yn y ddalfa yn cael eu gwneud gan y Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa (YCS) sy'n ystyried anghenion y plentyn. Yn ystod remand yn y ddalfa, bydd staff y Tîm Troseddau Ieuenctid (mewn cydweithrediad â gweithiwr cymdeithasol) yn asesu'r rhagolygon ar gyfer ceisiadau pellach am fechnïaeth neu RLAA gydag asiantaethau a thwrneiod eraill.

Mae tystiolaeth dda y gall bod yn y ddalfa gael effaith niweidiol ar blant, gan amharu ar gysylltiadau â'r teulu a'r ysgol, ymysg pethau eraill. Yn hytrach, dangoswyd bod llai o gyswllt â'r system yn lleihau'r risg o aildroseddu.[1] Mae llawer o gynnydd wedi'i wneud yn ystod y degawd diwethaf i ddileu remand diangen yn y ddalfa. Gwnaeth nifer cyfartalog y plant sy'n cael eu remandio i'r ddalfa ostwng 65% rhwng 2010/11 a 2016/17 Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y plant sy'n cael eu remandio yn y ddalfa wedi aros yn weddol sefydlog.

Cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder [Adolygiad o'r defnydd o remand yn y ddalfa ar gyfer plant](#) [(2022, 'Adolygiad Remand')](#) a oedd yn ystyried materion fel nifer y plant a gafodd eu remandio am lai na saith diwrnod, a chyfran y plant nad aeth ymlaen i gael dedfryd o garchar. Roedd yn herio'r rhagdybiaeth bod remand yn cael ei 'ddefnyddio' yn rheolaidd ond roedd yn gweld bod lle i leihau achosion lle mae remand yn y ddalfa yn rhagosodedig.

Awgrymodd ymgysylltu fel rhan o Adolygiad Remand y gallai cyllid fod yn gyfrwng i leihau remand diangen yn y ddalfa ymhellach. Roedd yr Adolygiad Remand yn ymrwymo i: "yn y tymor canolig i'r tymor hwy, ystyried opsiynau i adolygu'r trefniadau cyllido presennol er

[1] Cronfa Waddol Ieuenctid (2020) What works; Preventing children and young people from becoming involved in violence & YEF (2021) Evidence and Gap Map; Summary Report – sy'n crynhoi cyflwr y sylfaen dystiolaeth sy'n sail i ddulliau i atal plant rhag troseddu

mwyn hwyluso gwell defnydd o ddarpariaeth gymunedol a gwasanaethau i blant sydd mewn perygl o gael eu remandio yn y ddalfa.”

Cynlluniwyd y model cyllido presennol mewn ymateb i newidiadau i brosesau remand a gyflwynwyd gan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2012 yn seiliedig ar gred yn effeithiolrwydd goruchwyliaeth ac addysg gymunedol i gefnogi plant. Rhan o’r dull hwn oedd trosglwyddo mwy o gyfrifoldeb ariannol dros remandio yn y ddalfa i awdurdodau lleol. Mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i gyfrannu cyllid sy’n ymwneud â chostau awdurdodau lleol o ran remandio i Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a statws plant ar remand sy’n derbyn gofal yn seiliedig ar fodel a luniwyd gyda’r nod o gymell dewisiadau eraill yn lle anfon i’r ddalfa.

# Y Cyd-destun presennol

Er mwyn ystyried beth fyddai'n gallu hwyluso darparu dewisiadau eraill yn y gymuned i blant sydd mewn perygl o gael eu remandio yn y ddalfa, mae angen i ni ddeall y cyd-destun presennol. Mae ystadegau a gwybodaeth ategol am y tueddiadau sy'n gysylltiedig â remandio yn y ddalfa ar gael yn Atodiad A, gan adeiladu ar y rheini yn yr Adolygiad Remand.

Ers sefydlu'r cyllid yn 2013, bu gostyngiad yn nifer cyfartalog y plant ar remand yn y ddalfa bob mis o 338 yn 2012/13 i 207 yn 2021/22. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf (gan gynnwys yn ystod COVID-19) mae'r nifer hwn wedi aros yn weddol sefydlog hyd yn oed wrth i nifer y plant yng nghyfanswm y boblogaeth yn y ddalfa gyrraedd y lefelau isaf erioed. Yn 2022/23 ar gyfartaledd roedd 42% o boblogaeth ieuenctid yn y ddalfa (gan gynnwys pobl ifanc 18 oed) yno ar remand, o'i gymharu â 27% yn 2018/19. Mae'r gyfran hon wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd gostyngiad cyflymach yn y boblogaeth yn y ddalfa ieuenctid a ddedfrydwyd na'r boblogaeth ar remand, ac nid oherwydd cynnydd yn nifer y remandio yn y ddalfa.

Er bod niferoedd wedi gostwng (mae nifer y cyfnodau remand yn y ddalfa y flwyddyn wedi gostwng rhwng 2017/18 a 2021/22 o tua 1,500 i 1,200, gostyngiad o 21%) yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae cynnydd wedi bod yn yr amser mae plant yn ei dreulio ar remand yn y ddalfa. Mae canolrif yr amser ar remand yn y ddalfa wedi codi o 39 noson yn 2018/19 i 68 noson yn 2021/22. Bu gostyngiad hefyd yng nghyfran yr holl remandio yn y ddalfa sydd o dan 91 noson o 82% i 68% rhwng y cyfnodau 2013/14-2015/16 a 2020/21-2022/23 yn y drefn honno. Yn y cyfnod hwnnw, mae cyfran y remand sy'n para 1-7 noson wedi gostwng o 23% i 16%.

Bu cynnydd bach yn y defnydd o remand cymunedol gydag ymyriadau yn y blynyddoedd diwethaf er bod y niferoedd yn dal yn gymharol fach.[2] Newidiodd y dull o gyfrif y remandio hyn o 2017/18 ymlaen felly nid yw'n bosibl cymharu niferoedd cyn y dyddiad hwn ar hyn o bryd. Cynyddodd y niferoedd 14% rhwng 2017/18 a 2021/22 o tua 875 i 1,000 o gyfnodau bob blwyddyn, gan gynyddu fel cyfran o'r holl remandio yn ystod y cyfnod hwn o 5% i 9%. Fodd bynnag, mae'r twf hwn wedi cael ei sbarduno'n bennaf gan gynnydd yn nifer y cyfnodau goruchwylio a chefnogi mechnïaeth, gyda remandio i gyfnodau mewn llety awdurdod lleol heb newid i bob pwrpas rhwng 2017/18 a 2021/22 (295 a 301 yn y drefn honno). Gyda mwy o ddefnydd o ddargyfeirio ar gyfer plant sy'n cyflawni troseddau llai difrifol, rydym wedi gweld gostyngiad mawr yn nifer y plant yn y llysoedd, gan adael ar gyfartaledd garfan o blant sy'n fwy tebygol o gael eu cyhuddo o droseddau mwy difrifol

[2]Mae'r 'grŵp remandio cymunedol gydag ymyrraeth' yn cynnwys goruchwylio a chefnogi mechnïaeth, mechnïaeth â goruchwyliaeth ddwys a chymorth (ISS), a remandio i lety awdurdod lleol.

(trafodir hyn yn fanylach isod). Mae hyn yn debygol o fod yn rheswm sy'n cyfrannu at y ffaith nad ydym wedi gweld cynnydd sylweddol yng nghyfran y plant sy'n cael eu remandio yn y gymuned gydag ymyrraeth.

Mae angen i waith ar ddewisiadau cymunedol eraill yn lle remand yn y ddalfa gadw mewn cof y grwpiau mwyaf cyffredin yn y boblogaeth remand yn y ddalfa a sut mae hyn wedi newid. Roedd plant a gafodd eu remandio i'r ddalfa yn 2021-2022 yn fwy tebygol o fod yn:

- Wrywod (97%), mae hyn wedi bod yn gyson am nifer o flynyddoedd;
- Remand am drosedd o drais yn erbyn yr unigolyn (76%), bu crynodiad cynyddol o droseddau o drais yn erbyn yr unigolyn;
- O grŵp lleiafrifoedd ethnig (58%), mae cyfran y plant gwyn sy'n cael eu remandio i'r ddalfa wedi gostwng dros amser ac wedi arwain at grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn cynrychioli dros 50% o'r plant sy'n cael eu remandio i'r ddalfa ers 2016/17;
- Hŷn (roedd 50% yn 17 oed), gyda'r cyfrannau'n aros yn weddol debyg hyd yn oed wrth i'r niferoedd ostwng; ac
- O Lundain (33%), er bod y gyfran hon wedi gostwng ers 2011/12 pan oedd yn 43%.

Roedd y rhan fwyaf (70%) o blant sy'n cael eu remandio i'r ddalfa yn cael eu rhoi mewn sefydliadau troseddwyr ifanc. Mae'r mwyafrif helaeth o'r nosweithiau gwely ar remand hefyd mewn YOI, sy'n cynnwys tua 70-80% o nosweithiau gwely rhwng 2011/12 a 2022/23 (gweler Atodiad A).

Nododd yr Adolygiad Remand hefyd rai o'r materion cyfredol o ran darparu llety i blant. Cynyddodd nifer y plant sy'n derbyn gofal yn Lloegr 16% o 2015 i 2021.[3] Mae cost uchel lleoliadau hefyd wedi cael ei chofnodi'n dda drwy adolygiadau a gyhoeddwyd, yn ogystal â'r problemau o ran argaeledd lleoliadau addas i ddiwallu'r anghenion iawn, ac yn y lle iawn. Gwaethygir y materion hyn mewn perthynas â remandio gan fod angen i leoliadau a all fod yn ddewis amgen i remand yn y ddalfa fod yn ddarbwyllol i'r llys yn ogystal â threfnu a chyflwyno ar fyr rybudd. Mae argaeledd lleoliadau maethu remand hefyd wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y cyfnod hwn. Roedd 125 o leoliadau 'maethu fel maethu remand' yn Lloegr yn 2021-22, gostyngiad o 310 yn 2017-18 ac o 175 yn 2020-21.[4]

**Camau rydym wedi'u cymryd ers yr Adolygiad Remand (Ionawr 2022)**
Gwnaeth yr Adolygiad Remand nifer o gynigion i wella prosesau remand, gan ganolbwyntio ar gamau gweithredu fesul cam ar draws y system oherwydd bod remand yn golygu camau gweithredu annibynnol gan nifer o asiantaethau a gwasanaethau.[5] Canfu'r

[3] https://explore-education-statistics.service.gov.uk/find-statistics/children-looked-after-in-england-including-adoptions#releaseHeadlines-tables
[4] Fostering in England 1 April 2021 to 31 March 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)
Yng Nghymru, mae'r sector wedi symud oddi wrth recriwtio 'mathau' arbenigol o ofalwyr maeth.
[5] Mae map defnyddiol o'r system ar gael yn t38-40 Adolygiad o Blant ar Remand yn y Ddalfa Ionawr 2022 (publishing.service.gov.uk)

Adolygiad Remand nifer o faterion sy'n effeithio ar y defnydd o opsiynau cymunedol eraill yn lle remand yn y ddalfa, er enghraifft:

- diffyg manylion am y cynnig a gyflwynwyd i'r llys;
- anghysondeb o ran argaeledd Mechnïaeth gyda Goruchwyliaeth a Chefnogaeth Ddwys (ISS);
- anghysondeb o ran gwaith aml-asiantaeth a rhannu gwybodaeth;
- anawsterau o ran gweithio mewn partneriaeth rhwng gwasanaethau plant a Thimau Troseddau Ieuenctid; a
- diffyg hyder y llysoedd mewn RLAA pan mai cartref y teulu oedd y cyfeiriad, neu oherwydd pryderon ynghylch lleoliadau anaddas.

Ers ei gyhoeddi, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi defnyddio dull arweinyddiaeth system ar draws y system cyfiawnder ieuenctid i weithredu'r cynigion i fynd i'r afael â'r materion hynny, gan gynnwys:

- Ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Rheoli YOT gynnal adolygiad rheolaidd o remand fel rhan o'u Cynlluniau Cyfiawnder Ieuenctid lleol;

- Diweddaru Canllawiau Rheoli Achosion (CMG) i roi mwy o hyblygrwydd yng nghyfansoddiad ISS Mechnïaeth, ac i egluro nad yw pwysau ariannol neu adnoddau yn rheswm digonol dros beidio â chynnig pecyn mechnïaeth;

- Hyrwyddo arferion gorau o'r Adolygiad Remand ymysg partneriaid lleol i wella gweithio mewn partneriaeth er mwyn cynyddu eu gallu i ddod â dewisiadau eraill i'r llys;[6]

- Cyhoeddi a hyrwyddo canllawiau ychwanegol ar RLAA (h.y. y darpariaethau cyfreithiol a'r arferion gorau) gyda mewnbwn gan ymarferwyr cyfreithiol;[7]

- Rhannu enghreifftiau newydd o RLAA cadarn a phecynnau mechnïaeth lle mae'r plentyn yn cael ei letya gartref ar Hyb Adnoddau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB);

- Comisiynu arolygiad thematig ar y cyd ar remand ieuenctid gan Arolygiaeth Prawf EF, Arolygiaeth Carchardai EF ac Ofsted, a fydd yn adrodd yn ystod hydref 2023;

- Sicrhau bod gwell hyfforddiant ar gael i'r ynadaeth a'r farnwriaeth ar y profion remand ieuenctid newydd;

---

[6] Rhestr wirio o gamau gweithredu o Adolygiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder o Remandio yn y Ddalfa ar gyfer partneriaid lleol MoJ (Ministry of Justice) Review of Custodial Remand For Children (January 2022) - Youth Justice Resource Hub (yjresourcehub.uk)

[7] rlaa-issues-circular-annex.pdf (publishing.service.gov.uk)

- Diweddaru'r geiriad ar ddefnyddio'r doc diogel yn y llysoedd yn Llyfr Mainc diweddaraf y Llys Ieuenctid (2023); a

- Mae'r Swyddfa Gartref yn gweithio gyda NPCC a rhanddeiliaid plismona eraill i hyrwyddo egwyddorion *Concordat ar Blant yn y Ddalfa* 2017 i atal plant rhag cael eu cadw mewn gorsafoedd heddlu ar ôl cyhuddo.

Mae'r Adran Addysg (DfE) hefyd wedi ymgynghori ers hynny ar ei chynllun gweithredu ar gyfer diwygio gofal cymdeithasol plant, *Stable Homes, Built on Love*, a bydd yn cymryd camau ar unwaith i gynyddu nifer y cartrefi priodol yn y mannau cywir sydd ar gael i blant fel mater o frys – gan gynnwys drwy fuddsoddi dros £24 miliwn i ehangu ei rhaglen recriwtio a chadw – adolygu pob deddfwriaeth, rheoliadau a safonau gofal; cyflwyno cyfundrefn oruchwylio ariannol ar gyfer awdurdodau annibynnol preifat a gwirfoddol sy'n darparu cartrefi maeth a chartrefi plant, a darparu cymorth cenedlaethol ynghylch rhagolygon, caffael a siapio'r farchnad i awdurdodau lleol.

**Y profion cyfreithiol diwygiedig**

Roedd yr Adolygiad Remand yn cynnig newidiadau cyfreithiol i brofion LASPO er mwyn cryfhau ymhellach y profion y mae'n rhaid i'r llysoedd eu defnyddio mewn penderfyniadau remand ac atgyfnerthu'r rhagdybiaeth bresennol o remand cymunedol. Daeth y diwygiadau hyn i rym drwy Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd (PCSC) ym mis Mehefin 2022[8] a gwnaed y newidiadau canlynol:

- cyflwyno dyletswydd statudol ar y llysoedd i ystyried llesiant a budd pennaf y plentyn;
- tynhau'r amod dedfrydu o ran lle mae anfon i'r ddalfa'n ymddangos yn 'debygol iawn';
- cymhwyso'r amod dedfrydu i'r set gyntaf a'r ail set o amodau;
- diwygio'r ail set o amodau i sicrhau bod yr 'hanes' yn berthnasol yn yr holl amgylchiadau a'i fod yn 'ddiweddar ac arwyddocaol';
- cryfhau'r amod angen i sicrhau, pan gaiff mechnïaeth ei gwrthod, bod y llysoedd yn remandio'r plentyn yn y gymuned oni bai nad oes modd rheoli'r risg a berir ganddo yn ddiogel yno; a
- chyflwyno rhwymedigaeth statudol ar y llysoedd i gofnodi eu rhesymau dros remandio yn y ddalfa.

**Effaith**

Mae'r ymgysylltu cychwynnol â'r farnwriaeth a'r Timau Troseddau Ieuenctid yn awgrymu, er bod penderfyniadau ynghylch remand yn dal yn gymhleth iawn, mae'r profion PCSC yn sicrhau bod mwy o ystyriaeth yn cael ei rhoi i opsiynau cymunedol. Rydym wedi clywed gan rai rhanddeiliaid bod y newidiadau cyfreithiol a'r Adolygiad Remand wedi cael effaith

[8] Circular on the PCSC Act youth remand amendments (publishing.service.gov.uk)

ysgogol gyda phartneriaid llys a phartneriaid cyfiawnder lleol, eiriolwyr cyfreithiol ac eraill, gan arwain yn arbennig at fwy o graffu ar addasrwydd RLAA cyn ystyried remandio yn y ddalfa.

Mae rhai Timau Troseddau Ieuenctid a gwasanaethau plant wedi dweud wrthym, mewn ymateb i'r Adolygiad Remand a'r newidiadau cyfreithiol, eu bod wedi dechrau gweld mwy o RLAA a'u bod yn paratoi ar gyfer mwy. Maent wedi creu protocolau lleol newydd i sicrhau bod statws a hawliau plant sy'n cael eu remandio fel plant sy'n derbyn gofal yn cael eu deall yn dda a'u bod yn gallu cydweithio'n gyflym i gydlynu lleoliadau a chefnogaeth i'r plentyn.

Er bod y boblogaeth remand yn y ddalfa wedi aros yn sefydlog ar y cyfan, mae adborth gan randdeiliaid yn awgrymu, heb y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf PCSC, y gallai cynnydd fod wedi bod yn y niferoedd ar remand yn y ddalfa. Mae'n bosibl y bydd tueddiadau'r troseddau sy'n cael eu harchwilio yn Atodiad A hefyd yn cefnogi'r syniad bod y boblogaeth gyfartalog ar remand yn y ddalfa bob mis yn aros yn sefydlog oherwydd remandio hirach, yn hytrach na chynnydd mewn niferoedd.

Fodd bynnag, er bod y gwaith hwn wedi arwain at newid, nid oedd cynnydd yn y gyfran o remandio cymunedol gydag ymyriadau yn genedlaethol yn 2021/22 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rydym yn dal i glywed bod angen mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau strwythurol (fel mynediad i lety) er mwyn sicrhau newid sylweddol mewn dewisiadau eraill yn lle remand yn y ddalfa.

Mae effeithiau tymor hir diwygio'r newidiadau yn Neddf PCSC yn dal i gael eu gwireddu a byddant yn cael eu monitro. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddeall y rhesymau a gofnodwyd dros benderfyniadau remand.

**Materion sy'n dod i'r amlwg**

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder nawr yn gweithio i wella ein dealltwriaeth o rai o'r tueddiadau diweddaraf mewn remand sy'n rhyngweithio â'r cyllid a'r defnydd o ddewisiadau eraill yn lle anfon i'r ddalfa. Er enghraifft, cynnydd mewn remandio hirach a allai gael ei effeithio gan y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM), y gyfran gynyddol o droseddau treisgar, yr amser a gymerir o gyhuddo i'r treial, neu gynnydd mewn achosion sy'n delio â mwy nag un person.

Mae prydlondeb achosion yn Llys y Goron yn dal yn flaenoriaeth i'r llywodraeth. Rydym wedi rhoi amrywiaeth o fesurau gwahanol ar waith i fynd i'r afael â llwyth achosion heb eu cwblhau dros y tair blynedd diwethaf ac mae Grŵp Gwella Llys y Goron wedi cyhoeddi llawlyfr Rheoli Achosion yn Well wedi'i ddiwygio a'i ddiweddaru, sy'n canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd y system.

Lansiodd y Swyddfa Gartref y Rhaglen Beilot Gwneud Penderfyniadau Datganoledig ar gyfer Plant sy'n Ddioddefwyr Caethwasiaeth Fodern. Mae'r cynllun peilot yn profi

datganoli'r cyfrifoldeb dros benderfyniadau NRM ar gyfer plant sy'n dioddef caethwasiaeth fodern. Dylid gwneud penderfyniad ar Seiliau Rhesymol ddim hwyrach na 45 diwrnod o'r dyddiad y bydd y safleoedd peilot yn derbyn yr atgyfeiriad, a dylid gwneud penderfyniad ar Sail Diwrthbrawf heb fod yn hwyrach na 45 diwrnod ar ôl gwneud penderfyniad ar Seiliau Rhesymol. Mae'r Swyddfa Gartref yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid i fonitro'r cynlluniau peilot a bydd yn parhau i asesu'r camau nesaf.

Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o faterion perthnasol, megis:

- beth sy'n gweithio mewn goruchwyliaeth gymunedol yng nghyd-destun troseddau difrifol – er enghraifft, ble a pham y ceir achosion difrifol o dorri amodau mechnïaeth neu remand cymunedol, gan gadw mewn cof yr effaith ar ddioddefwyr. Yn ogystal ag edrych ar effaith y newid diweddar i annog hyblygrwydd yng nghyfansoddiad ISS Mechnïaeth;

- nifer y plant sy'n cael eu remandio fel newydd-ddyfodiad i'r system cyfiawnder ieuenctid a fydd yn effeithio ar allu partneriaid i goladu pecyn yn gyflym yn hytrach nag anfon i'r ddalfa. Bydd hefyd yn effeithio ar effeithiolrwydd rhai ymyriadau a buddsoddiadau i atal remandio yn y ddalfa; a

- canlyniadau yn y treial ar gyfer plant ar ôl remandio yn y ddalfa – mae'r prif ffigurau'n dangos cyfran uchel nad ydynt yn cael eu dedfrydu i'r ddalfa, neu'n cael eu rhyddhau, ond mae'r penderfyniad dedfrydu'n pwyso a mesur llawer o ffactorau, ac ni fydd rhai ohonynt wedi bod yn hysbys adeg y penderfyniad i remandio.

Mae'r newidiadau hyn i'r defnydd a phroffil remandio yn y ddalfa, ynghyd â'r materion parhaus a'r rhai sy'n dod i'r amlwg, yn dangos, er bod cynnydd wedi'i wneud dros y degawd ac ers yr Adolygiad Remand, bod arwyddion clir bod angen i ni wneud mwy os ydym am gynyddu'r defnydd o ddewisiadau eraill yn lle anfon i'r ddalfa. Mae'r nod hwn yn barhad o'r hyn y ceisiodd y darpariaethau remandio yn LASPO ei gyflawni. Felly, rydym yn archwilio isod pa ran y mae'r cyllid wedi'i chwarae cyn edrych ar sut y gellid diwygio'r cyllid i fod yn fwy effeithiol o ran cyflawni'r nodau hyn.

# Trefniadau cyllido cyfredol

Roedd LASPO yn ddeddfwriaeth bwysig a gyflwynodd brofion llym ar gyfer remandio yn y ddalfa ac a sefydlodd ragdybiaeth, lle na ellid caniatáu mechnïaeth i blentyn, rhaid i'r llys remandio plentyn i lety awdurdod lleol. Roedd hefyd yn:

- rhoi pob plentyn dan un fframwaith remandio, gan drin plant 17 oed fel plant;[9]
- rhoi statws 'plentyn sy'n derbyn gofal' i blant ar remand p'un ai a ydynt wedi'u remandio i ofal yr awdurdod lleol neu mewn llety cadw ieuenctid; [10] a
- datganoli cyfrifoldeb yn llawn dros gostau remandio i lety cadw ieuenctid, sy'n golygu bod awdurdodau lleol yn talu costau remandio plant i Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (yn ogystal â chyfrifoldeb ariannol parhaus dros remandio i SCH a STC).[11]

O fis Ebrill 2013, nid oedd awdurdodau lleol bellach yn cael cymorth ariannol gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid tuag at eu costau o remandio i SCH a STC.

Gwnaed y newidiadau hyn gan fod teimlad cyn hynny nad oedd gan awdurdodau lleol fawr o gymhelliant i gynnig dewisiadau eraill i lysoedd yn lle anfon i'r ddalfa oherwydd nad oeddent yn talu costau remandio i Sefydliadau Troseddwyr Ifanc. Yn ogystal, bwriad y newidiadau oedd cymell gwasanaethau plant lleol a Thimau Troseddau Ieuenctid i gydweithio ar gynlluniau cymunedol i atal troseddu rhag gwaethygu a gweithredu fel opsiwn arall i'r ddalfa.

Ymgynghorodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ag awdurdodau lleol yn 2012 (*Y fframwaith remandio newydd ar gyfer plant: Dyrannu cyllid beichiau newydd i awdurdodau lleol*), i gydnabod y 'baich newydd' o gyfrifoldeb ariannol y mae'r newidiadau hyn yn ei roi ar awdurdodau lleol. Cytunodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder y byddai awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr yn derbyn taliad blynyddol (o 2013/14 ymlaen) fel cyfraniad tuag at adennill costau i awdurdodau lleol ar gyfer remandio yn y ddalfa, ac ar gyfer cefnogi plant

---

[9] Fodd bynnag, dim ond plant dros 12 oed y gellir eu remandio i lety cadw ieuenctid.

[10] LASPO Adran 92 a 104(1). Gweler Canllawiau a Rheoliadau Deddf Plant 1989 Cyfrol 2 (DfE, 2021). Mae rhai eithriadau i'r ddarpariaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal pan mai remandio yw'r unig reswm dros y statws LAC, megis dim gofyniad i wneud 'cynllun ar gyfer sefydlogrwydd' yn awtomatig, ac yn achos remandio yn y ddalfa, roedd Cynllun Lleoli Cadw yn ystyried eu lles mewn lleoliad a'u cynlluniau ar gyfer y cyfnod ar ôl hynny.

[11] Gweler LASPO adran 103(2) a'r Ddeddf Plant, adran 22-23.

ar remand fel rhai sy'n derbyn gofal, ac y byddai'r system gyllido hon yn cael ei hadolygu.[12]

Mae dyraniad cyllid remand y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cyfrannu at ddim ond rhan o wariant awdurdodau lleol ar ddarpariaeth mechnïaeth a remand ieuenctid.

Roedd y model yn darparu cyllid heb ei neilltuo (h.y. mae hyblygrwydd o ran sut y gellir defnyddio cyllid) er mwyn gallu buddsoddi mewn dewisiadau eraill yn lle anfon i'r ddalfa ac er mwyn i'r ardal leol leihau'r defnydd o'r ddalfa, sut bynnag yr ystyrient orau. Drwy osgoi remandio i'r ddalfa, rhagwelwyd y gellid gwario'r gwahaniaeth a fyddai wedi cael ei wario ar anfon i'r ddalfa i ddatblygu gwasanaethau remand lleol.

Codir 'pris sector' ar awdurdodau lleol am bob remand i'r ddalfa, h.y. pris penodol y noson i bob plentyn, yn dibynnu ar y sector. Mae hyn yn golygu bod yr holl nosweithiau gwely ar remand ar draws y YOI yn cael eu codi ar yr un gyfradd. Cyfrifir pris y sector gan ddefnyddio lefelau deiliadaeth remand yn y gorffennol ym mhob sefydliad mewn sector, ar y cyd â chostau gwasanaethau ym mhob sefydliad.[13] Nid yw'r fethodoleg hon wedi newid dros amser. Mae pris y sector wedi'i gynllunio i sicrhau bod yr un tâl yn berthnasol i bob defnyddiwr, er mwyn ei gwneud yn haws i awdurdodau lleol gynllunio ar ôl i remand ddechrau. Mae'r YCS yn anfonebu'r awdurdod lleol dynodedig yn fisol ar gyfer cost nosweithiau y mae plentyn yn eu treulio ar remand yn y ddalfa ar sail prisiau'r sector.[14]

Mae prisiau'r sector wedi codi dros amser oherwydd costau staffio a chynnal a chadw cynyddol, chwyddiant contractau a phwysau chwyddiant eraill:

*Tabl 1:* Prisiau sector ar gyfer nosweithiau gwely ar gyfer remandio i ddalfa ieuenctid ar 01 Ebrill (2014-2024)

| Blwyddyn | Sefydliad Troseddwyr Ifanc (YOI) | Canolfannau Hyfforddi Diogel (STC) | Cartref Diogel i Blant (SCH) |
|---|---|---|---|
| **2013/14** | £163 | £579 | £580 |
| **2014/15** | £158 | £581 | £561 |

[12] Mae LASPO 2012 a103(4) yn rhoi'r pŵer i'r SoS ddarparu cyllid grant ond nid yw'n mandadu hynny. Ni ddylid drysu rhwng taliadau a chyllid craidd y Grant Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid a wneir o dan a.41(5)(g) Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

[13] Mae rhagor o fanylion am y fethodoleg hon ar gael yma:[Payment and cost recovery arrangements in respect of children detained on remand in youth detention accommodation | The British Library (bl.uk)] Mae'r swm sydd i'w godi fesul noson yn cael ei ddiweddaru drwy ddiwygiadau i [The Recovery of Costs (Remand to Youth Detention Accommodation) (Amendment) Regulations 2023 (legislation.gov.uk)]
Yn y dyfodol, bydd yr Ysgol Ddiogel yn cael ei chynnwys yn y broses o bennu prisiau'r sector.

[14] Mae'r llys yn dynodi'r awdurdod lleol. Ni ellir adennill costau ar ôl pen-blwydd plentyn yn 18 oed, os yw'r remand yn gorgyffwrdd â dedfryd o garchar, neu o'r diwrnod y mae dedfryd yn dechrau.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2015/16** | £177 | £497 | £559 |
| **2016/17** | £177 | £490 | £574 |
| **2017/18** | £191 | £536 | £579 |
| **2018/19** | £189 | £546 | £579 |
| **2019/20** | £240 | £612 | £699 |
| **2020/21** | £321 | £453 | £762 |
| **2021/22** | £315 | £574 | £753 |
| **2022/23** | £307 | £733 | £770 |
| **2023/24** | £328 | £838 | £834 |

*Mewn rhai blynyddoedd bu amrywiad bach mewn prisiau yn ystod y flwyddyn.*

Mae'r pot cyllid cyffredinol sy'n cael ei dalu i awdurdodau lleol wedi'i ddylunio i adlewyrchu amcangyfrif rhesymol o'r defnydd a wneir o Sefydliadau Troseddwyr Ifanc y flwyddyn flaenorol a phris sector remand Sefydliad Troseddwyr Ifanc y flwyddyn nesaf. Mae'r taliadau remand wedi'u rhannu'n dri dyraniad cyffredinol:

**a) cyfraniad at gostau gwelyau ar gyfer remandio i Sefydliadau Troseddwyr Ifanc** – mae pob taliad unigol yn adlewyrchu defnydd cyfartalog yr awdurdod lleol perthnasol o Sefydliadau Troseddwyr Ifanc dros y tair blynedd flaenorol er mwyn rhoi amcangyfrif rhesymol o gostau remand Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ac fel cyfran ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**b) cyfraniad at y costau sy'n gysylltiedig â phlant ar remand yn dod yn blant sy'n derbyn gofal** – gan gynnwys helpu gydag ymweliadau plant sy'n derbyn gofal, costau dehonglydd yn yr ymweliadau hynny (lle bo angen) a theithio i gefnogi ymweliadau. Mae hefyd yn cyfrannu at gostau teithio aelod o'r teulu neu ofalwr sy'n mynychu ymweliadau i adlewyrchu canllawiau statudol.[15] Mae hefyd yn cydnabod y bydd rhai plant ar remand yn dod yn gymwys i dderbyn gwasanaethau gadael gofal.[16] Mae gostyngiad yn cael ei gymhwyso i'r rhan hon oherwydd nifer y plant a fyddai wedi bod yn 'derbyn gofal' o hyd pe na baent wedi cael eu remandio'n ddiogel.[17]

[15] Daw cyfraniadau cost plant sy'n derbyn gofal o adroddiad yr Uned Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (PSSRU) *Unit Costs of Health and Social Care* 2015 fel sail gyda chynnydd ar gyfer chwyddiant.

[16] Os ydynt wedi bod ar remand am fwy na 13 wythnos, o 14 oed ymlaen (gan gynnwys un diwrnod ar neu ar ôl eu pen-blwydd yn 16 oed).

[17] Ar sail amcangyfrifon gwreiddiol, roedd 25% o'r plant a oedd yn y ddalfa yn derbyn gofal yn flaenorol.

**c) ystyried costau teithiau yn ôl ac ymlaen o STC a SCH** – mae YCS wedi parhau i ariannu cludiant ac felly mae didyniad o'r dyraniad yn cael ei wneud ar gyfer hebrwng plant, ar sail defnyddio SCH a STC dros y ddwy flynedd diwethaf.

Dangosir y dadansoddiad o'r cyllid ar gyfer y flwyddyn hon isod fel enghraifft.

*Tabl 2:* Dadansoddiad o ddyraniad cyllid remand (2023-24)

| Blwyddyn | Dyraniad sy'n ymwneud â Sefydliadau Troseddwyr Ifanc | Costau sy'n gysylltiedig â Phlant sy'n Derbyn Gofal | Costau sy'n gysylltiedig ag ymweliadau cymorth â Phlant sy'n Derbyn Gofal | Didyniad ar gyfer cost cludiant i STC a SCH | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **2023/24** | £18,072,000 | £3,963,000, gyda £525,000 ar gyfer gwasanaethau i'r rhai sy'n gadael gofal | £323,000 | £946,000 | £21,312,000* |

**Llai £100,000 ar gyfer costau cynlluniau peilot rhanbarthol eleni*

Er bod y nosweithiau gwely remand blynyddol cyffredinol sy'n cael eu defnyddio mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc wedi gostwng, mae swm y cyllid sy'n cael ei dalu wedi cynyddu (gweler Tabl 3), mae hyn oherwydd prisiau cynyddol Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn y sector. Bu mwy o amrywiaeth yn y nosweithiau gwely SCH a STC oherwydd newidiadau yn yr ystâd, ond mae hefyd yn wir bod pris sector uwch wedi cynyddu'r costau i awdurdodau lleol. Heb newid y model, mae'n bosibl y bydd y cyllid a'r costau cyffredinol yn parhau i gynyddu tra'n methu â chreu gostyngiad yn y defnydd o remand yn y ddalfa.

*Tabl 3:* Cyllid remand y Weinyddiaeth Gyfiawnder a gwariant awdurdodau lleol (Cymru a Lloegr) ar remand yn y ddalfa

| | Cyfanswm cyllid remand i awdurdodau lleol | Cyfanswm a wariwyd gan awdurdodau lleol ar welyau remand YOI | Cyfanswm a wariwyd gan awdurdodau lleol ar welyau remand STC | Cyfanswm a wariwyd gan awdurdodau lleol ar welyau remand SCH | Cyfanswm a wariwyd gan awdurdodau lleol ar yr holl welyau remand yn y ddalfa |
|---|---|---|---|---|---|
| **2014/15** | £14.7m | £10m | £10.7m | £3.8m | £24.5m |
| **2015/16** | £14.3m | £9.8m | £7.2m | £4.9m | £21.9m |
| **2016/17** | £10.8m | £8.9m | £5.4m | £3.8m | £18.1m |
| **2017/18** | £9.4m | £11.1m | £8.2m | £4.1m | £23.4m |
| **2018/19** | £11.6m | £12.2m | £8.8m | £4.8m | £25.8m |
| **2019/20** | £16.5m | £15m | £9.6m | £5.2m | £29.8m |
| **2020/21** | £22.2m | £19.3m | £6.1m | £5.7m | £31.1m |
| **2021/22*** | £21.3m | £16.3m | £5.4m | £8.4m | £30.2m |
| **Cyfanswm** | £120.8m | £102.6m | £61.4m | £40.7m | £204.7m |

- *Talwyd cyllid yn 2013/14 ond nid yw’r ffigurau ar gael yn y fformat hwn.*
- *Mae data o 2021/22 yn ddata dros dro.*
- *Roedd y cyllid yn 2022/23 yn £20.3m, mae gwaith dilysu’n parhau ar y gwariant.*

# Asesu trefniadau cyllido

Rhagwelwyd yn 2013 y byddai rhoi cyfrifoldeb ariannol i awdurdodau lleol dros remandio i Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, fel rhan o symudiad tuag at ddulliau cymunedol, yn cymell buddsoddiad mewn dewisiadau amgen yn y gymuned.

Roedd llawer o awdurdodau lleol wedi meddwl am ffyrdd newydd o gefnogi plant, gan gynnwys cydweithio ar draws ffiniau. Fel yr amlinellwyd uchod, bu gostyngiad mewn remand yn y ddalfa ers 2013/14.

Fodd bynnag, ni fu cynnydd sylweddol rhwng 2017/18 a 2021/22 yn y gyfran o remandio cymunedol gydag ymyriadau (yn enwedig RLAA a ddaeth yn remand tybiedig yn y newidiadau cyfreithiol). Nid yw'r union resymau dros hyn yn glir. Efallai fod y buddsoddiad mewn dewisiadau amgen cymunedol wedi lleihau ers 2017 oherwydd pwysau eraill. Fodd bynnag, gan nad oes mecanwaith adrodd gyda'r cyllid hwn, a bod y ddarpariaeth o lety a gwasanaethau'n gorgyffwrdd â'r rhai a ddarperir gan wasanaethau plant ehangach (er enghraifft, creu llety sydd hefyd yn gwasanaethu grŵp ehangach o blant yn ogystal â'r rhai sydd ar remand), mae'n anodd asesu'n uniongyrchol yr effaith ar ymddygiad. Cafwyd rhywfaint o adborth bod ymdrechion newydd wedi'u gwneud i ddechrau mewn perthynas â dewisiadau eraill yn lle remand ochr yn ochr â newidiadau LASPO ond bod y ffocws hwn wedi'i golli ar ôl i'r cyllid a'r profion cyfreithiol ddod yn 'fusnes fel arfer'. Rheswm arall posibl yw na all y dewisiadau eraill a gyflwynir ddarparu'r lefel o gefnogaeth gadarn a ddisgwylir gan y llysoedd i amddiffyn y cyhoedd yng ngoleuni troseddu treisgar.

Mae'r asesiad isod yn amlinellu pam nad ydym yn credu y gall y model cyllido presennol gefnogi ymdrechion i gynyddu dewisiadau cymunedol yn lle anfon i'r ddalfa yn y cyd-destun hwn.

**Diffyg cymhelliant**
Gellir ystyried bod awdurdodau lleol dan anfantais ariannol drwy weithio i ddod o hyd i leoliad RLAA priodol oherwydd bod eu dyraniad cyllid remand blynyddol dilynol yn seiliedig ar eu defnydd o YOI yn unig. Byddai plentyn sy'n cael ei remandio mewn Sefydliad Troseddwyr Ifanc yn arwain at gyllid dilynol i'r awdurdod lleol o dan y model hwn. Ond nid yw'r ymdrech i goladu a chyflwyno cynnig RLAA llwyddiannus i'r llys yn arwain at gostau sy'n cael eu hystyried yng nghyllid y dyfodol (h.y. y gyllideb sy'n cael ei gweld gan y rhai sy'n gweithio ym maes cyfiawnder ieuenctid). Yn hytrach, bydd gwariant ar RLAA yn cael ei gynnwys mewn cyfrifiadau eraill ar gyfer dyrannu cyllid ehangach i awdurdodau lleol yn y dyfodol.

Fodd bynnag, nid yw llawer o awdurdodau lleol a Thimau Troseddau Ieuenctid yn cael eu cymell na'u datgymell yn y ffyrdd hyn gan y model cyllido oherwydd eu hymrwymiad i

osgoi effeithiau niweidiol anfon i'r ddalfa ac i ddull gweithredu plentyn yn gyntaf. Ar ben hynny, mae llai o gymhelliant oherwydd bod y dyraniad cyllid ar gyfer remand (boed hynny'n arwain at warged neu ddiffyg yn y flwyddyn) mor fach o'i gymharu â chyllidebau ehangach ar gyfer gwasanaethau plant.

Mae'n berthnasol nodi bod y Cynllun Braenaru Llety Llundain (LAP), y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi'i noddi, wedi datblygu'n annibynnol ar gyllidebau remand. Nod LAP yw darparu unedau llety ar gyfer plant a phobl ifanc (yn enwedig o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig) sydd ar remand neu ddedfryd gymunedol. Mae LAP yn brosiect cydweithredol, trawiadol ar draws nifer o awdurdodau lleol a phartneriaid, gan gynnwys Cynghorau Llundain, y GIG ac elusennau. Roedd hyn yn galw am fuddsoddiad cyfalaf ac adnoddau ymlaen llaw gan yr awdurdodau lleol, yn ogystal â chyllid prosiect gan YJB. Rhan allweddol o'r prosiect oedd sicrhau y bydd y costau nosweithiau gwely yn llai na remand yn y ddalfa neu leoliadau eraill, ond bydd hefyd yn darparu goruchwyliaeth, gweithgareddau a chefnogaeth therapiwtig benodol er mwyn i'r plant weithio ar hunaniaeth rhag-gymdeithasol a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol unrhyw ymddygiad troseddol.

I grynhoi, mae'n werth nodi nad yw'r model cyllido remand yn cynnwys y cymhelliant a ddisgwylid yn ystod dyluniad y cyllid.

**Natur anrhagweladwy ac anallu i ragweld**
Y bwriad gwreiddiol oedd y byddai rhoi cyllid anghyfyngedig yn arwain at arloesi, neu hyd yn oed gyfuno cyllidebau. Er bod rhai ardaloedd wedi cymryd camau breision o ran creu gwasanaethau mechnïaeth a remandio pwrpasol, mae'r realiti o wneud taliadau bach i awdurdodau lleol unigol yn golygu nad yw hyn yn gyffredin. Mae ystyriaethau ymarferol eraill wedi gwneud buddsoddi mewn dewisiadau amgen yn anoddach, hyd yn oed os oes awydd cryf i gynyddu dewisiadau cymunedol yn lle anfon i'r ddalfa.

Nid yw cyfrifo cyllid yn y dyfodol yn seiliedig ar y defnydd o YOI yn ystod y tair blynedd flaenorol yn caniatáu ar gyfer cyllidebu na hyblygrwydd. Oherwydd natur anrhagweladwy remand, gall gwariant ar remandio i YOI ar lefel awdurdod lleol unigol felly fod yn llawer uwch neu'n is na'r hyn y mae'r mecanwaith cyllido'n ei ragweld, gan arwain at awdurdodau lleol yn derbyn symiau amrywiol dros y blynyddoedd.

Mae dosbarthiad cyllid remand hefyd yn amrywio'n fawr rhwng awdurdodau lleol oherwydd y fformiwla, yr amrywiad ym maint yr awdurdod lleol a'r garfan fach. Yn 2022/23 o 163 o daliadau, y cyfartaledd cymedrig oedd £103,000, y cyfartaledd canolrifol oedd £59,000, a'r taliad mwyaf oedd £1.16m. Y flwyddyn ariannol hon ni chafodd16 awdurdod lleol unrhyw daliad.

Canfu'r Adolygiad Remand fod ofn 'digwyddiadau sbigyn' yn y dyfodol (lle gellir remandio mwy nag un plentyn ar yr un pryd, a gall hynny yn arwain at gostau llawer uwch na'r hyn a ragwelwyd yn y dyraniad cyllid ar ddechrau'r flwyddyn) yn cyfyngu ar fuddsoddi mewn

opsiynau eraill. Mae niferoedd remand yn gyfnewidiol oherwydd maint cymharol fach y garfan ar lefel leol yn bennaf, ac nid oes modd rhagweld y costau oherwydd gwahanol ddibyniaethau h.y. penderfyniad y llys i remandio i'r ddalfa, y penderfyniad ynghylch y sector dalfa addas, a hyd yr amser ar remand. Wedi dweud hynny, dylai penderfyniad y llys i bennu remand yn y ddalfa ond gael ei wneud ar ôl ystyried RLAA, a dylai partneriaid lleol, os yw'n briodol, gyflwyno ceisiadau pellach am fechnïaeth neu RLAA.

Er bod y dyraniad cyllid yn ystyried prisiau cynyddol Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn y sector bob blwyddyn, gall costau uchel rhai achosion o remandio yn y ddalfa atal awdurdodau lleol rhag 'buddsoddi i gynilo' mewn dewisiadau cymunedol eraill. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer awdurdodau lleol lle mae remand yn y ddalfa yn brin ac felly mae'r cyllid yn fach. Yn hytrach, efallai y bydd awdurdodau lleol yn dueddol o gadw'r cyllid i dalu am gostau remandio yn y ddalfa a allai ddod yn ddiweddarach yn y flwyddyn honno, neu ei ailddyrannu'n dybiannol i wneud iawn am gostau remand o flynyddoedd blaenorol.

Ni fwriadwyd i'r cyllid remand dalu am holl gostau remandio yn y ddalfa, ond yn bennaf i helpu awdurdodau lleol i reoli'r newid i'r baich ariannol ychwanegol a gyflwynwyd gan LASPO o ganlyniad i remandio i Sefydliadau Troseddwyr Ifanc. Mae awdurdodau lleol yn talu costau sy'n gysylltiedig â remandio i STC a SCH o'u cyllid ehangach ar gyfer gwasanaethau plant. Mae costau cyffredinol remandio i SCH a STC yn cynyddu yn unol â chostau cynyddol ar gyfer y rhan fwyaf o leoliadau preswyl i blant.

Mae natur anrhagweladwy hefyd yn effeithio ar fuddsoddiad mewn cymorth mechnïaeth; dywedir wrthym fod rhai ardaloedd yn ei chael yn anodd cyfiawnhau buddsoddi mewn darpariaeth ISS Mechnïaeth pan nad yw nifer y plant a allai ddefnyddio'r gwasanaethau yn y dyfodol yn hysbys. Nid yw rhai prosesau ariannol lleol yn caniatáu i ddeiliaid cyllidebau gario arian ymlaen o flynyddoedd blaenorol, tra bod y dyluniad cychwynnol wedi rhagweld gallu cario arian drosodd ar gyfer gwaith remand.

Yn gyffredinol, mae'r cyllid a ddarparwyd i awdurdodau lleol drwy'r taliadau hyn wedi bod yn fwy nag y maent wedi'i wario ar remandio i Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn y cyfnod ers sefydlu'r cyllid. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd uchod, gallai unrhyw ddyraniad cyllid remand nad yw'n cael ei wario ar remand i Sefydliadau Troseddwyr Ifanc gael ei ailddyrannu o fewn cyllidebau lleol, yn hytrach na chael ei ystyried fel 'gwarged' i'w fuddsoddi mewn dewisiadau cymunedol yn lle anfon i'r ddalfa fel y ddychmygwyd yn ystod y broses o gynllunio'r cyllid.

**Mae dewisiadau amgen cymunedol wedi mynd yn ddrytach**

Gall dewisiadau amgen cymunedol fel ISS Mechnïaeth neu RLAA (lle mae'r plentyn yn cael ei letya yn ei gartref) fod yn rhatach o lawer na'r ddalfa, ac un amcangyfrif ar gyfer yr

Adolygiad Remand oedd £202 y noson yn 2020.[18] Fodd bynnag, gall llety cymunedol fod yn ddrytach yn awr na remand yn y ddalfa, yn rhannol oherwydd diffyg lleoliadau a all ddarparu ar gyfer plant sydd wedi'u cyhuddo o droseddau difrifol. Mae hyn yn groes i'r rhagdybiaeth yn 2013.

Mae'r data sydd ar gael yn dangos bod cost gyfartalog lle mewn cartref agored i blant (£695 y noson) yn ddrutach na Sefydliad Troseddwyr Ifanc (£328 y noson), sy'n cynrychioli'r rhan fwyaf o lefydd remand yn y ddalfa.[19] Felly, gall awdurdodau lleol wario llai ar Sefydliad Troseddwyr Ifanc nag ar opsiwn preswyl cymunedol, heb greu unrhyw gymhelliant ariannol i remandio i'r gymuned.

O ymgysylltu ag awdurdodau lleol, rydyn ni'n gwybod bod opsiynau cymunedol drud iawn hefyd pan fyddan nhw'n cael eu dylunio o amgylch plentyn sydd â risgiau neu wendidau penodol ar fyr rybudd, sy'n ymestyn dros £20,000 yr wythnos. Mae nifer y lleoliadau maethu remand sydd ar gael wedi gostwng yn sylweddol. Gall lleoliadau arbenigol eraill fod yn anodd eu canfod, er enghraifft, canfu arolygiad thematig gan Arolygiaeth Carchardai EF ar Ganlyniadau i Ferched yn y Ddalfa (2022) 'nad oedd merched agored i niwed yn gallu cael gafael ar y cymorth yr oedd ei angen arnynt yn y gymuned a'u bod weithiau'n cael eu remandio i'r ddalfa oherwydd nad oedd unman arall iddynt fynd'.

Gall y ffaith bod angen i becynnau neu leoliadau eraill fod ar gael i nifer cymharol fach o blant a allai fod wedi'u cyhuddo o droseddau difrifol iawn gynyddu costau'n aruthrol, a gwaethygu'r anawsterau o ran comisiynu neu greu marchnad, ac efallai y bydd angen atebion newydd.

## Cwestiynau

**Cwestiwn 1** Yn eich barn chi, a yw'r cyllid remand presennol wedi cefnogi dewisiadau eraill yn lle anfon i'r ddalfa?

**Cwestiwn 2** Pa fath o fechnïaeth gydag ymyriad neu becyn remandio i awdurdod lleol ydych chi'n meddwl sy'n diwallu anghenion plant orau ac sy'n amddiffyn y cyhoedd? A yw'r dewisiadau cymunedol eraill yn eich ardal yn ateb y galw?

**Cwestiwn 3** Beth sy'n dylanwadu ar y tebygolrwydd y bydd dewisiadau cymunedol eraill yn lle remandio yn y ddalfa yn cael eu cyflwyno i lysoedd yn eich ardal

---

[18] Ac mae cyllid gan y Grant Cyfiawnder Ieuenctid yn gallu cael ei ddefnyddio i gefnogi darpariaeth gymunedol fel ISS Mechnïaeth. Mae Adran 38(4)(c) Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, yn gosod dyletswydd statudol ar
awdurdodau lleol a'u partneriaid i ddarparu "cefnogaeth i blant a phobl ifanc sy'n cael eu remandio neu eu rhoi ar fechnïaeth tra'n disgwyl am dreial neu ddedfryd".

[19] Mae hyn yn dal yn llai na chostau STC (£838 y noson) a SCH (£824 y noson). Ffynhonnell ffigyrau dyddiol cartrefi plant agored 2021 Adolygiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd sy'n deillio o'r Uned Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol Personol.

leol? Pam ydych chi’n meddwl nad ydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn y defnydd o ddulliau eraill yn lle anfon i’r ddalfa?

# Opsiynau ar gyfer diwygio'r cyllid

Mae'r opsiynau a nodir isod yn ystyried ystod eang o ddulliau yng ngoleuni'r materion a amlinellir uchod. Maent yn lefel uchel oherwydd mae mewnbwn yn cael ei geisio gan randdeiliaid yn gynnar. Mae'r opsiynau isod yn adeiladu ar y safbwynt y bydd awdurdodau lleol yn parhau i dalu costau pob remand yn y ddalfa a chludiant i'r ystâd mannau diogel, yn ogystal â pharhau i gefnogi plant sy'n cael eu remandio fel rhai sy'n derbyn gofal.

Bydd opsiynau'n cael eu harfarnu yn unol â'r canllawiau yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF a byddant yn cael eu hystyried ochr yn ochr â phroses Adolygiad o Wariant os bydd angen. Ni fyddwn yn diwygio'r model cyllido yn y flwyddyn ariannol hon ac nid ydym yn bwriadu gwneud newidiadau cyn blwyddyn ariannol 2025/26. Bydd angen pwerau deddfwriaethol i weithredu rhai opsiynau.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran Addysg, yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC) a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y costau parhaus i awdurdodau lleol o ganlyniad i remandio i SCH, STC ac RLAA yn cael eu deall yn llawn a'u diweddaru mewn asesiadau cyllido eraill.

**Opsiynau i'w hystyried ar gyfer diwygio**
Wrth ddatblygu unrhyw ddiwygiadau, byddwn yn cael ein harwain gan nodau cyffredinol y system o leihau troseddu a byddwn yn ystyried lles plant a'r amcanion allweddol hyn;

- Galluogi creu dewisiadau mwy cadarn yn lle remandio yn y ddalfa;
- Sicrhau system sy'n darparu gwell gwerth am arian; a
- Lleihau'r baich gweinyddol sy'n cael ei greu gan y system bresennol.

**Opsiwn 1: Gwneud dim newid**

- Gellid parhau â'r model cyllido os yw tystiolaeth newydd yn dangos bod y model presennol yn arwain at system effeithiol, neu'n gallu gwneud hynny, ac y gall ein helpu i gyflawni'r amcanion hyn.
- Fodd bynnag, dylid nodi, o dan y fformiwla bresennol hon, y gallai swm y cyllid remand a roddir i awdurdodau lleol ostwng dros amser os bydd remand yn y ddalfa i Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn gostwng oherwydd ffactorau amrywiol.
- Byddai model newydd yn ystyried a oes agweddau llwyddiannus ar y trefniadau cyllido presennol y dylem ddysgu oddi wrthynt.

## Opsiwn 2: Parhau â'r cyllid ond newid sut rydym yn talu

2a: Dylunio model rhanbarthol ar gyfer taliadau

- Gallem ddyrannu taliadau i grwpiau awdurdod lleol rhanbarthol ar y sail bod niferoedd remand yn llai amrywiol o'u cymharu ar draws nifer o awdurdodau lleol. Gallai rhanbartholi cyllid roi mwy o sicrwydd a galluogi mwy o bŵer gwario ar gyfer dewisiadau eraill yn lle anfon i'r ddalfa, yn ogystal â darparu ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny nad ydynt yn cael unrhyw gyllid ers rhai blynyddoedd.
- Byddai hyn yn cynnal disgresiwn lleol o ran sut i gynllunio gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol ond gallai hefyd sicrhau bod arferion gorau'n cael eu rhannu wrth gynllunio ymyriadau a chomisiynu lleoliadau ar gyfer plant sydd mewn perygl o gael eu remandio.
- Rydym wedi ailddyrannu swm bach o gyllid (£200,000) o'r cyllid remand ar draws 2023/24 a 2024/25 i brofi'r opsiwn hwn. Bydd deg awdurdod lleol yn rhanbarth Manceinion Fwyaf yn cael y cyllid hwn i dreialu a gwerthuso defnyddio cyllid cyfun ar gyfer remand. Mae ganddynt hefyd warant na fydd eu dyraniad o gyllid remand yn 2024/25 yn llai nag yn 2023/24. Bydd y gwerthusiad o'r broses sy'n deillio o hynny yn cefnogi ein hasesiad o'r opsiwn hwn. Bydd hefyd yn golygu bod modd parhau i rannu arferion gorau mewn ymyriadau ar gyfer plant sydd mewn perygl o gael eu remandio yn y ddalfa, hyd yn oed os na chaiff cyllid ei ddiwygio fel hyn.
- Yn y cynllun peilot, mae'r awdurdodau lleol yn cyfuno eu cyllid remand yn wirfoddol, ond efallai mai'r polisi yn y pen draw fyddai gorfodi gweithio rhanbarthol.
- Byddai angen ystyried y grwpiau rhanbarthol priodol o ystyried amrywiadau mewn daearyddiaeth a ffyrdd lleol o weithio (ac ystyriaethau penodol ar gyfer Cymru). Byddai angen i ni hefyd fod yn ymwybodol o'r anawsterau sy'n gysylltiedig â phlant yn cael eu lleoli y tu allan i'r ardal, a manteision lleoliadau yn agos at eu cartref, ond hefyd realiti'r ffaith bod y llysoedd yn gosod ardaloedd gwahardd daearyddol eang yn y gymuned.

2b: Newid y fformiwla ar gyfer cyfrifo'r dyraniadau

- Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau gyda rhagolygon ac er mwyn gallu buddsoddi mewn gwasanaethau remand neu ddewisiadau eraill yn lle anfon i'r ddalfa, gallem geisio diwygio'r dosbarthiad rhwng awdurdodau lleol er mwyn rhoi mwy o sicrwydd dros amser. Neu gallem ystyried dull dyrannu sy'n cydnabod buddsoddiad mewn dewisiadau amgen i'r rheini sy'n llwyddo i osgoi remandio plant i'r ddalfa a gwneud gwahaniaeth yn eu tueddiadau remandio
- O ystyried proffil troseddu plant ar remand, gallem ystyried cysoni'r dyraniad cyllid remand â fformiwlâu cyllido eraill i sicrhau ffocws ar ffactorau allweddol sy'n sbarduno troseddu. Gallai hyn olygu ailddyrannu mwy o gyllid i ardaloedd sydd â

thrais ieuenctid mwy difrifol (h.y. y troseddau sy'n fwy tebygol o arwain at blentyn yn cael ei remandio i'r ddalfa), neu ffactorau risg cysylltiedig eraill.

- Byddai angen ystyried a oes dull teg sy'n gallu ystyried tueddiadau hanesyddol dros gyfnod hwy, sy'n gallu osgoi dyblygu ac sy'n gallu ystyried ffyrdd o fesur difrifoldeb troseddu, lefelau troseddu a buddsoddiadau amgen mewn gwasanaethau.

<u>2c: Cyflwyno'r cyllid remand i fecanweithiau cyllido presennol</u>

- Gellid cyfuno'r cyllid remand â chyllid ehangach gan awdurdodau lleol drwy'r setliad cyllid llywodraeth leol (LGFS) a all alluogi rhoi gwell ystyriaeth i flaenoriaethau lleol. Nid yw hyn yn ganlyniad anghyffredin pan adolygir cyllid beichiau newydd.
- Gallai hyn edrych ar yr holl ddyraniad cyllid yn unig, neu wahanu'r dyraniad sy'n ymwneud â chostau plant sy'n derbyn gofal. Byddai angen ystyried cyllid ar gyfer Cymru i blant sy'n derbyn gofal yng nghyd-destun datganoli ac egwyddorion cyllido cysylltiedig.
- Gallai hyn annog y ddarpariaeth ar gyfer plant ar remand i gael ei gweld fwyfwy fel rhan o'r prif wasanaethau i bob plentyn sy'n derbyn gofal.
- Neu, gallem ystyried cyfuno'r cyllid remand â'r grant craidd blynyddol i Dimau Troseddau Ieuenctid. Mae llawer o reolwyr Timau Troseddau Ieuenctid yn goruchwylio'r taliad remandio beth bynnag ac felly gallai hyn roi mwy o sicrwydd drwy gyllideb gyfun a lleihau beichiau gweinyddol. O ystyried bod y cyllid craidd i Dimau Troseddau Ieuenctid drwy'r Grant Cyfiawnder Ieuenctid (£8.6m yn 2022/23) yn cynnwys cefnogi plant ar fechnïaeth, gallai hyn alinio cyllid cyfiawnder ieuenctid ymhellach â gwaith cydgysylltiedig yn lleol.
- Byddai angen ystyried sut mae hyn yn effeithio ar ffyrdd awdurdodau lleol a Thimau Troseddau Ieuenctid o weithio gyda'i gilydd i wireddu manteision llawn statws plant sy'n derbyn gofal ar gyfer plant sy'n cael eu remandio.
- Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r llywodraeth wedi cynyddu'r Grant Cyfiawnder Ieuenctid. Fodd bynnag, nid yw'r fformiwla ariannu grantiau bresennol wedi cael ei diweddaru ers 2011 a bydd y gwaith o ailedrych ar y fformiwla'n parhau i gael ei adolygu – bydd angen ystyried hyn os bydd cyllid remand yn cael ei gyfuno â'r grant.

**Opsiwn 3: Dod â'r model cyllido i ben a sefydlu pot cyllid canolog**

<u>Awdurdodau lleol i wneud cais am gyllid yn ganolog</u>

- Gallem greu cynllun ar gyfer awdurdodau lleol, naill ai'n unigol neu fel rhan o gonsortia, i wneud cais am gyllid ar gyfer dewisiadau cymunedol arloesol yn lle remand yn y ddalfa. Gallai hyn gysoni'r cyllid yn agosach â'r cynnydd yn y defnydd o ddewisiadau eraill yn lle anfon i'r ddalfa, yr ydym, gyda'n gilydd, yn eu ceisio. Gallem osod canllawiau ar gyfer y ceisiadau, neu ganiatáu i awdurdodau lleol

benderfynu ar y ffordd orau o sicrhau canlyniadau i blant a lleihau troseddu a sicrhau diogelwch y cyhoedd o fewn modelau arfer gorau.

- Byddai angen ystyried a fyddai angen i geisiadau fod ar gyfer syniadau newydd neu wrthweithio diffyg darpariaeth mewn rhai ardaloedd – yn ogystal ag ystyried y rhyngweithio â'r cyllid sydd ar gael gan yr Adran Addysg ar gyfer llety i blant.
- O ystyried yr heriau o ran llety plant mewn darpariaeth arbenigol, a'r ffyrdd nad yw'r cyllid remand presennol yn cymell buddsoddiad ymlaen llaw oherwydd incwm annisgwyl, byddai'n rhaid ystyried cyllid dros nifer o flynyddoedd.

**Opsiwn 4: Dod â chyllid awdurdodau lleol i ben a defnyddio cyllid mewn ffyrdd gwahanol i wella canlyniadau sy'n gysylltiedig â chyfiawnder ieuenctid.**

<u>4a: Archwilio darpariaeth ganolog model llety cymunedol cenedlaethol.</u>

- Gallem archwilio comisiynu'n ganolog rwydwaith o unedau llety yn y gymuned i ddarparu ar gyfer y plant sydd fwyaf mewn perygl o gael eu remandio yn y ddalfa ledled y wlad. Gallai hyn fynd i'r afael â chostau cychwynnol creu llety a'r problemau sy'n cael eu creu gan niferoedd isel o blant ar remand yn lleol a gwerth isel cyllid pan fyddant yn cael eu gwasgaru ar draws pob awdurdod lleol. O ystyried y cymysgedd presennol o droseddau cysylltiedig â phlant ar remand yn y ddalfa, gallai hyn gynnwys lleoliadau arbenigol sy'n addas ar gyfer plant sydd wedi'u cyhuddo o droseddau treisgar a rhywiol, ac ystyried cefnogaeth ar gyfer anghenion cymhleth eraill.
- Gallai model cenedlaethol gael ei gontractio i sefydliad sy'n arbenigo mewn cefnogi plant a gallai gefnogi plant i aros mewn lleoliad tra'n symud i ddedfryd gymunedol neu gefnogi eu hadsefydlu os byddant yn cael eu rhyddhau o'r cyhuddiad(au).
- Byddai angen i ni ystyried dosbarthiad daearyddol realistig i sicrhau y gallai plant fod o fewn pellter rhesymol i'w cartref.
- Gallai'r opsiwn hwn gymryd peth amser i'w sefydlu a byddai materion sylweddol i'w hystyried ynghylch comisiynu, codi tâl am ddefnyddio gwelyau, llenwi bylchau a sut y gallai awdurdodau lleol archebu gwelyau. Gallem ystyried dysgu gan LAP fel rhan o'r gwaith hwn a gallem ystyried sut i ddefnyddio liferi cenedlaethol i annog lleoliadau maeth ar gyfer remand hefyd.

<u>4b: Cynyddu gwariant ar wella'r ddarpariaeth yn yr ystâd mannau diogel</u>

- Er mai nod LASPO a newidiadau Deddf PCSC yw hyrwyddo rheoli plant yn y gymuned, mae diogelu'r cyhoedd hefyd yn parhau i fod yn nod allweddol. O ystyried cyd-destun presennol y cymysgedd o droseddau cysylltiedig â phlant ar remand, a sefydlogi'r niferoedd ar remand, mae'n debygol y bydd plant yn dal i gael eu remandio i'r ddalfa am gyfnodau tra bydd eu treial yn cael ei baratoi.

- Gallem ystyried gwelliannau i'r ddarpariaeth ar gyfer plant ar remand – gallai hyn hefyd gefnogi eu hadsefydlu a'u ailintegreiddio gan wella'r canlyniadau i blant yn y tymor hwy. Ni fyddai hyn yn negyddu gwaith gyda phartneriaid i wneud yr holl welliannau posibl i'r prosesau gwneud penderfyniadau remand, a'r gwaith ar gynyddu dewisiadau amgen i anfon i'r ddalfa. Fodd bynnag, mae'n ymateb i'r ffaith nad yw'r cyllid yn cael ei ddangos i gefnogi'r gwaith hwnnw.

**Ystyriaethau**
Byddai angen i opsiynau 3 a 4 yn benodol ystyried y ffordd orau o symud oddi wrth y trefniadau cyllido presennol, fel dileu'r cyllid presennol erbyn dyddiad penodol.

Byddem yn cynnal asesiad newydd arall o'r beichiau cyn mynd ar drywydd opsiynau yn y dyfodol i ddiwygio'r model cyllido presennol. Gallai gwaith hefyd olygu adolygu neu ddiweddaru'r methodolegau a ddefnyddir i gyfrifo prisiau'r sector.

Bydd ein gwaith yn y dyfodol yn ystyried yr hyn a ddysgwyd o'n cynllun peilot rhanbarthol ar gyfer cyllid remand a chynlluniau peilot cyfiawnder ieuenctid eraill (fel LAP), yn ogystal â'r canlynol:

- Diwygio gofal cymdeithasol plant, a gweithio ar ddarpariaeth anghenion cymhleth;
- Cynlluniau'r Adran Addysg i ddarparu dau Gwmni Cydweithredol Rhanbarthol (RCC)braenaru yn Lloegr yn ystod cyfnod yr Adolygiad o Wariant hwn;
- Modelau gweithredu ar gyfer yr ystâd ddiogel i bobl ifanc yn y dyfodol ac agor yr Ysgol Ddiogel gyntaf (Oasis Restore) yn 2024;
- Canfyddiadau'r cydarolygiad thematig ar remand ieuenctid;
- Newidiadau arfaethedig Llywodraeth Cymru i ddeddfwriaeth ar ofal cymdeithasol i blant;
- Ymrwymiad yr Adran Addysg i ymgynghori ar fformiwla newydd ar gyfer dosbarthu cyllid gwasanaethau plant a phobl ifanc i awdurdodau lleol; ac
- Agwedd y llywodraeth tuag at gyllido ar gyfer awdurdodau lleol.

## Cwestiynau

**Cwestiwn 4** Beth yw eich barn am barhau â'r model cyllido (**Opsiwn 1**)?

**Cwestiwn 5** Sut ydych chi'n meddwl y gallai model rhanbarthol (**Opsiwn 2a**) effeithio ar y dewisiadau cymunedol amgen i anfon i'r ddalfa sydd ar gael?

**Cwestiwn 6** Pa mor hawdd neu anodd fyddai hi i'ch rhanbarth fabwysiadu model rhanbarthol (**Opsiwn 2a**)?

**Cwestiwn 7** Ydych chi'n meddwl y byddai'n well cyflawni ein nodau ddiwygio'r mecanwaith chyllid (**Opsiwn 2**)? Beth yw eich barn am gyfuno'r cyllid sy'n ymwneud â statws LAC â chyllid ehangach ar gyfer gwasanaethau plant?

**Cwestiwn 8** Ydych chi'n meddwl y byddai galluogi cyllid drwy geisiadau yn effeithio ar y dewisiadau eraill sydd ar gael yn lle anfon i'r ddalfa **(Opsiwn 3**)?

**Cwestiwn 9** Ydych chi'n meddwl y gallai dull gweithredu canolog gefnogi dewisiadau eraill yn lle anfon i'r ddalfa (**Opsiwn 4**)?

**Cwestiwn 10** Pa opsiwn ydych chi'n meddwl fyddai'n diwallu ein hamcanion orau (ar dudalen 21)?

**Cwestiwn 11** A oes gennych gynnig arall ar gyfer diwygio cyllid remand? Eglurwch sut mae hyn yn wahanol i'r opsiynau a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Cwestiwn 12** Pe bai'r cyllid yn newid, pa drefniadau pontio fyddai'r pwysicaf i chi?

# Datganiad Cydraddoldeb

**Dyletswyddau cydraddoldeb**

Mae adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion a'r Adran, wrth arfer eu swyddogaethau, i roi 'sylw dyledus' i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth a mathau eraill o ymddygiad a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb;
- Datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu; a
- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir a phobl nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath.

Mae angen ystyried rhoi "sylw dyladwy" yn erbyn y naw nodwedd warchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Y naw nodwedd warchodedig yw hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oedran, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, a beichiogrwydd a mamolaeth.

Mae'r ddogfen ymgynghori ac Atodiad A yn amlinellu rhywfaint o'r data sydd ar gael mewn perthynas ag oed, hil a rhyw plant sy'n cael eu remandio i'r ddalfa, ac mae'n adeiladu ar ddatganiadau blaenorol fel yr un ar gyfer y mesurau remand yn Neddf PCSC: *Youth measures in the Police, Crime, Sentencing and Courts Bill: Equalities Impact Assessment - GOV.UK (www.gov.uk)*

Mae ystyried effaith cynigion a gweithredu unrhyw gynigion yn ddyletswydd barhaus. Byddwn yn nodi'r diwygiadau hynny rydym yn bwriadu eu rhoi ar waith. Bryd hynny, byddwn yn cyhoeddi Datganiad Cydraddoldeb llawn a fydd hefyd yn ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad.

**Cwestiwn 13** Yn eich barn chi, beth fyddai effaith y cynigion ar gydraddoldeb yn achos unigolion â nodweddion gwarchodedig? A oes unrhyw fesurau lliniaru y dylai'r llywodraeth eu hystyried? A oes canlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol posibl y dylai'r llywodraeth eu hystyried? Rhowch resymau a data os oes modd.

# Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol sydd wedi'u cynnwys yn y papur ymgynghori hwn.

**Cwestiwn 1** Yn eich barn chi, a yw'r cyllid remand presennol wedi cefnogi dewisiadau eraill yn lle anfon i'r ddalfa?

**Cwestiwn 2** Pa fath o fechnïaeth gydag ymyriad neu becyn remandio i awdurdod lleol ydych chi'n meddwl sy'n diwallu anghenion plant orau ac yn amddiffyn y cyhoedd? A yw'r dewisiadau cymunedol eraill yn eich ardal yn ateb y galw?

**Cwestiwn 3** Beth sy'n dylanwadu ar y tebygolrwydd y bydd dewisiadau cymunedol eraill yn lle remandio yn y ddalfa yn cael eu cyflwyno i lysoedd yn eich ardal leol? Pam ydych chi'n meddwl nad ydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn y defnydd o ddulliau eraill yn lle anfon i'r ddalfa?

**Cwestiwn 4** Beth yw eich barn am barhau â'r model cyllido (**Opsiwn 1**)?

**Cwestiwn 5** Sut ydych chi'n meddwl y gallai model rhanbarthol (**Opsiwn 2a**) effeithio ar y dewisiadau cymunedol amgen i anfon i'r ddalfa sydd ar gael?

**Cwestiwn 6** Pa mor hawdd neu anodd fyddai hi i'ch rhanbarth fabwysiadu model rhanbarthol (**Opsiwn 2a**)?

**Cwestiwn 7** Ydych chi'n meddwl y byddai'n well cyflawni ein nodau ddiwygio'r mecanwaith chyllid (**Opsiwn 2**)? Beth yw eich barn am gyfuno'r cyllid sy'n ymwneud â statws LAC â chyllid ehangach ar gyfer gwasanaethau plant?

**Cwestiwn 8** Ydych chi'n meddwl y byddai galluogi cyllid drwy geisiadau yn effeithio ar y dewisiadau eraill sydd ar gael yn lle anfon i'r ddalfa **(Opsiwn 3**)?

**Cwestiwn 9** Ydych chi'n meddwl y gallai dull gweithredu canolog gefnogi dewisiadau eraill yn lle anfon i'r ddalfa (**Opsiwn 4**)?

**Cwestiwn 10** Pa opsiwn ydych chi'n meddwl fyddai'n diwallu ein hamcanion orau (ar dudalen 21)?

**Cwestiwn 11** A oes gennych gynnig arall ar gyfer diwygio cyllid remand? Eglurwch sut mae hyn yn wahanol i'r opsiynau a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Cwestiwn 12** Pe bai'r cyllid yn newid, pa drefniadau pontio fyddai'r pwysicaf i chi?

**Cwestiwn 13** Yn eich barn chi, beth fyddai effaith y cynigion ar gydraddoldeb yn achos unigolion â nodweddion gwarchodedig? A oes unrhyw fesurau lliniaru y

dylai'r llywodraeth eu hystyried? A oes canlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol posibl y dylai'r llywodraeth eu hystyried? Rhowch resymau a data os oes modd.

**Cwestiwn 14** Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am y materion hyn?

**Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.**

# Gwybodaeth amdanoch chi

Rhowch wybodaeth amdanoch chi yn yr adran hon

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl swydd** neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ac ati.) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw'r cwmni/sefydliad** (os yw'n berthnasol): | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| **Cod post** | |
| Os hoffech chi i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn | ☐ (ticiwch y blwch) |
| Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod | |
| | |
| | |

**Os ydych chi'n cynrychioli grŵp,** rhowch enw'r grŵp hwnnw i ni, os gwelwch yn dda, gyda disgrifiad cryno o'r bobl neu'r mudiadau rydych yn eu cynrychioli.

| |
|---|
| |
| |
| |
| |

# Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 08 Tachwedd 2023 drwy'r ddolen Consult Justice.

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Gellir cael rhagor o gopïau papur o'r ymgynghoriad hwn gan:

Youth Remand Policy Team
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ

ac mae hefyd ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/.

Os bydd angen, gellir gwneud cais am gopïau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill drwy anfon e-bost at:

## Cyhoeddi ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn o fewn tri mis. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/.

## Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi disgrifiad cryno o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

## Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y cyhoeddir neu y datgelir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, Rheoliad

Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych chi am i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei chadw'n gyfrinachol, rhaid i ni eich atgoffa bod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cynnwys Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef sy'n ymwneud, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymiadau cyfrinachedd. Oherwydd hyn, byddai'n fuddiol pe gallech esbonio wrthym pam eich bod yn credu bod yr wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os ydym yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, rhoddwn ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn addo y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG chi, ynddo'i hun, yn un sy'n rhwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, a gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partïon.

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion a ddylai gael eu mabwysiadu gan adrannau Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi cael eu hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018 sydd ar gael yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2023**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i: nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.